

*Parc Porthceri*

Ffotograff (H) Cyngor Sir Bro Morgannwg



*Maes Awyr Cymru Caerdydd*


Ffotograff (H) Cyngor Sir Bro Morgannwg



*Cerfluniau ym Mhen y Rhws*

Ffotograff (H) G.Woosnam

## LLEOLIAD Y DAITH GERDDED MEWN PERTHYNAS Â LLWYBR TREFTADAETH Y MILENIWM VALEWAYS




Mae Llwybr Treftadaeth y Mileniwm Valeways yn ymestyn am fwy na 100 cilomedr ac yn cwmpasu dros 6000 o flynyddoedd o hanes. Bydd yn ymlwybro drwy nifer o dirweddau prydferth iawn. O ben gogleddol y llwybr, mae golygfeydd ar draws holl ardal Blaenau Morgannwg, ac yn y de bydd y llwybr yn dilyn arfordir clogwynog trawiadol.

Mae'r Llwybr yn ymrannu'n 16 o ddarnau sy'n hawdd eu dilyn a gellwch gerdded pob un ohonynt mewn ychydig o oriau'n unig. Mae'r tir o gwmpas yn amrywiol, yn drawiadol yn aml ac yn llawn olion hanesyddol.

Os nad ydych erioed wedi ymweld â'r rhan hon o Gymru, byddwch wrth eich bodd yn cerdded drwy'r tiroedd isel ffrwythlon sy'n ffinio â'r Arfordir Treftadaeth godidog a'i draethau hardd. Mae'r llwybr yn cynnwys llawer o nodweddion hanesyddol diddorol dros ben sy'n amrywio o siambrau claddu cynhanesyddol i gestyll, eglwysi a phlastai mawreddog.

Mae Valeways wedi cyhoeddi teithlyfr Llwybr Treftadaeth y Mileniwm. Mae'r llyfr lliwgar hwn yn disgrifio 16 rhan y daith gerdded ac yn cael ei gyflwyno mewn pecyn sydd hefyd yn cynnwys 16 o fapiau A3 cyfatebol. Cewch ei brynu oddi wrth Valeways am £8.49 sy'n cynnwys cludiant a phacio.



*Llwybr troed ym Mhen-marc*

Ffotograff (H) Cyngor Sir Bro Morgannwg



*Tai a Llyn ym Mhen y Rhws*

Ffotograff (H) G.Woosnam

## NODWEDDION Y DAITH GERDDED

- **Parc Gwledig Porthceri**
- **Pen y Rhws a Golygfeydd o'r Môr**
- **Y Rhagfuriau a Chloddweithiau**
- **Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd**
- **Castell ac Eglwys Pen-marc**
- **Golygfeydd o'r wlad**



*Obelisg yn nodi pen mwyaf deheuol Cymru*

Ffotograff (H) V.Warlow

## DILYNWCH GÔD Y CERDDWYR

- Gwyliwch rhag tân bob amser
- Clowch bob clwyd
- Cadwch gŵn o dan reolaeth
- Dilynwch lwybrau cyhoeddus wrth groesi tir ffermydd
- Croeswch ffensys, waliau a pherthi wrth glwydi a chamfeydd
- Ewch â'ch ysbwriel adref
- Gwarchodwch yr holl fywyd gwyllt, planhigion a choed

make tracks with Valeways

Elusen gofrestredig yw Valeways sy'n cydweithio â chymunedau lleol er mwyn ailagor hen lwybrau a chreu rhwydwaith o deithiau cerdded cylch difyr ar draws Bro Morgannwg sy'n cysylltu trefi a phentrefi â'r wlad o'u hamgylch a mannau o ddiddordeb. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r holl wirfoddolwyr a roddodd yn hael o'u hamser er mwyn darparu'r daith gerdded hon i chi ei mwynhau.

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

Cyngor Cefn Gwlad Cymru Countryside Council for Wales

**Partneriaeth Valeways** - Diolch o galon i Gyngor Bro Morgannwg a Chyngor Cefn Gwlad Cymru am barhau i'n cefnogi.

Cefnogwyd gan Supported by

CRONFA LOTERI FAWR BIG LOTTERY FUND

cerdded llwybr iechyd walking the way to health

Environment Wales Amgylchedd Cymru

Valeways, Uned 7, Canolfan Mentrau Cymunedol y Barri, Heol Skomer, Y Barri CF62 9DA

Ffôn/ffacs: 01446 749000

E-bost: info@valeways.org.uk

Gwefan: http//www.valeways.org.uk

Elusen Gofrestredig Rhif 1062031 Cwmni Cofrestredig Rhif 333088

*Taith Gerdded 42, Y Rhws a Phen-marc*

# Taith o'r Parc Gwledig i'r Pentref Normanaidd

Pellter: 9 milltir



*Cysylltfur Gorllewinol Castell Pen-marc*

Ffotograff (H) G.Woosnam

make tracks with Valeways



Pen y Rhws yn cael ei Ddatblygu

Ffotograff (H) Cyngor Sir Bro Morgannwg

## *Taith Gerdded 42, Y Rhws & Phen-marc*

# Taith o'r Parc Gwledig i'r Pentref Normanaidd

**Prif Nodweddion y Daith Gerdded:** Eglwys a Chastell sy'n dyddio o ddechrau'r Oesoedd Canol; Parc Gwledig; Arfordir clogwynog; Man fwyaf deheuol Cymru; Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd.

**Pellter** 9 milltir.

**Map** Map Ordnans Explorer 151 Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr.

**Safloedd Parcio** Mae digon o le ym Mharc Porthceri (Cyfeirnod Grid 08/09 66/67); Rhywfaint o le ar ochr y ffordd yn y Rhws (0666). Ychydig o le ym Mhen-marc(0568). Mae safle wrth ochr y cyfleusterau cyhoeddus ym Mharc Porthceri

**Bwyd a Diod** Tafarn y Six Bells, Pen-marc; Caffi, Parc Porthceri; Tafarn yr 'Highwayman', Y Rhws.

**Toiledau** Parc Porthceri.

**CYFEIRIADAU** Ewch o'r caffi ym Mharc Porthceri




## Y LLWYBR

**C** Ewch o'r caffi ym Mharc Porthceri ar hyd y llwybr ❶ i gyfeiriad y môr, wedyn trowch i'r dde a chroeswch y tir agored sy'n arwain at yr arfordir a thraeth cerrig. Ewch ar hyd llwybr y clogwyn, a dringwch i fyny'n galed am ychydig nes i chi gyrraedd cae porfa. Mae'r Rhagfuriau ar y dde ❷. Croeswch y cae hwnnw ac ewch drwy fwlch yn y berth at faes carafanau. Trowch i'r chwith wrth y llwybr sy'n arwain at y maes carafanau a'i ddilyn i'r gorllewin drwy'r maes hwnnw. Ewch yn eich blaen ar hyd y llwybr sy'n gwyro oddi ar heol y bont ar eich ochr dde. Wedyn, yn union cyn dod at waliau adfeiliedig nifer o hen adeiladau, trowch i'r dde gan adael y llwybr, ac ewch yn eich ôl at lwybr arall sy'n arwain at lain o brysgdir. Dilynwch y llwybr troellog hwnnw o amgylch y tai newydd ar eich ochr dde.

Ewch ymhellach ar hyd yr arfordir gan ddilyn llwybr sy'n troi'n stepiau mewn mannau, nes i chi gyrraedd maen hir sy'n dynodi'r lle mwyaf deheuol yng Nghymru❸. O'r fan honno, cerddwch ymlaen at lwybr troed pren gan gadw'n agos at yr arfordir. Trowch i'r dde wedyn ac ewch i gyfeiriad y wlad ar hyd llwybr concrit sy'n codi i fyny ryw fymryn bach nes i chi gyrraedd croesfan reilffordd. Yna, ewch yn eich blaen ar hyd y stryd i briffordd y Rhws. Gwelwch siop Spar ar y chwith.

Trowch i'r dde wedyn a chroeswch y ffordd i Heol Brendon View. Dilynwch y llwybr i heol arall (Reader's Way). Croeswch yr heol hon at lwybr arall a'i ddilyn. Trowch i'r chwith ar y llwybr hwnnw a'i ddilyn am ryw 3/4 milltir o gwmpas terfynau allanol Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd ❹. O'r diwedd, byddwch yn dod i heol. Gwelwch dafarn yr 'Highwayman', gerllaw ar ochr dde'r heol. Cerddwch heibio i'r dafarn a throwch i'r dde wrth y gyffordd nesaf.

Ewch heibio i'r fan lle mae'r heol hon yn gwyro i'r chwith a dringwch dros y gamfa ar ochr dde'r heol. Cerddwch ar draws y cae at y clawdd terfyn ar gornel y Maes Awyr. Cerddwch ymlaen gyda chlawdd terfyn y Maes Awyr ar eich ochr dde a goleuadau glanio ar eich ochr chwith. Gwyrwch ryw ychydig i'r chwith ac anelwch am y bwlch yng nghlawdd y cae. Ar ôl dringo drwy hwnnw, croeswch y cae at y gamfa sy'n arwain at danffordd. Ewch o dan honno a dringwch lethr ar y dde at gamfa arall. Cerddwch yn eich blaen am ryw drydedd ran o'r cae gydag arglawdd y ffordd ar eich ochr dde, wedyn croeswch y cae o gornel i gornel at gamfa stepiau sy'n arwain at heol. Trowch i'r dde yn y fan honno, ewch i lawr y llethr ac o gwmpas tro nes i chi gyrraedd camfa gerrig ar y chwith.

Cerddwch i fyny'r llethr at bostyn cyfeirbwyntio ac anelwch at gornel dde uchaf y cae hir hwnnw. Dringwch dros y gamfa a dilynwch lwybr cul sy'n arwain at stryd (Croft John) ac ymlaen i briffordd Pen-marc.

Trowch i'r dde gan sylwi ar y dafarn, yr eglwys ac adfeilion y castell ar y ffordd ❺. Ewch yn eich blaen ar hyd y briffordd (gan anwybyddu heol sy'n ymuno a'r briffordd o'r ochr dde a heol arall sy'n ymuno o'r ochr chwith nes ymlaen) nes i chi gyrraedd man lle mae llwybr wyneb caled yn gwyro i'r chwith. Dilynwch y llwybr hwnnw a throwch i'r dde ar ôl i chi ddod at lidiart ffarm. Ewch ar hyd y llwybr sydd erbyn hyn yn llwybr pridd a cherddwch i lawr llethr ysgafn at gamfa wrth ochr iet cae ar y chwith. Croeswch y cae ar ei hyd at nant fach a chamfa. Croeswch y cae nesaf gan wyro ryw ychydig i'r dde o'r berth ar y chwith ac anelwch at lwyn o goed. Ar ôl cyrraedd y coed, ewch at y gamfa sydd yn union o'ch blaen a dringwch y llethr (bydd cytiau ffarm ar eich ochr dde). Dringwch dros gamfa arall a symudwch i ochr dde y cae nesaf. Dilynwch y cloddiau terfyn ar ochr dde'r caeau drwy ddau gae arall a thros bob camfa nes i chi gyrraedd prif heol yr arfordir.

Trowch i'r chwith a cherddwch ymlaen ryw ychydig. Wedyn croeswch y ffordd brysur at y gamfa sydd gyferbyn â Gwesty Wellford Court. Ar ôl dringo dros y gamfa ddwbl honno ewch i'r dde gan gadw y postyn telegraff ar ganol y cae ar eich ochr chwith. Gwyrwch i'r chwith ac ewch i lawr y llethr i'r cae nesaf (bydd perygl llithro yma weithiau oherwydd y mieri a'r llaid). Ewch dros y gamfa ar eich ochr dde i mewn i gae agored. Ewch yn eich blaen i lawr y llethr. Byddwch yn cerdded heibio i bont fetel ar y chwith. Dyma ffordd hirach ond sychach o gyrraedd Parc Porthceri (gwelwch y llinell doredig ar y map). Cerddwch ymlaen ryw ychydig, croeswch i ochr chwith y nant ac ewch yn eich blaen i lawr y llethr a thros gamfa at goedwig fach. (Bydd y lle hwn yn gors o fwd ar dywydd gwlyb). Croeswch y nant wrth y bont newydd ac ewch i mewn i Barc Porthceri. Ewch i'r chwith ar hyd y llwybr ac o dan y draphont at y Caffi - a dyma chi wedi cyrraedd man cychwyn y daith gerdded.



Pen y Rhws cyn ei adfywio

Ffotograff (H) Cyngor Sir Bro Morgannwg

## LLEODD O DDIDDORDEB

**❶ Parc Gwledig Porthceri**

Cychwyn/Diwedd: Ardal hyfryd yn llawn coed a dolydd yw hon sy'n hawdd ei chyrraedd o'r Barri. Mae ganddi gwrs golff bach, traeth cerrig a chaffi. Ei nodwedd amlycaf yw Traphont Fictorianaidd 20 bwa a 110 o droedfeddi o uchder sy'n cludo'r llinell reilffordd ar draws y dyffryn.

**❷ Y Rhagfuriau**

Cloddiau o Oes yr Haearn sy'n fencydd a ffosydd llawn tyfiant erbyn hyn yw'r rhain. Mae'r ddau adeilad Rhufeinig a ddarganfuwyd wrth ddatgloddio'r rhagfuriau ym 1968 yn dangos bod y safle'n dal i gael ei ddefnyddio yn ystod y cyfnod Rhufeinig.

**❸ Pen y Rhws Adfywio**

Mae 240 o erwau o dir a ddifethwyd ar ôl 1913 drwy ei gloddio a'i ddefnyddio fel safle cynhyrchu sment, bellach yn cael eu hadfer at ddibenion gwerthchweil. Mae cynlluniau i adeiladu tai a chwrs golff bach ac i warchod y bywyd gwyllt yn y llynnoedd ar waelod y chwareli a phlannu llystyfiant sy'n ffynnu mewn tir calchog.

Mae'r clogwyni heirdd ar lan y môr wedi'u ffurfio o Galchfaen Liasig a charreg glai. Dyma lecyn mwyaf deheuol tir mawr Cymru ac mae Maen Hir a Chylch Meini'n nodi'r fan.

**❹ Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd**

Maes awyr mwyaf Cymru sy'n tyfu ar hyd yr amser.

**❺ Pen-marc**

Mae gan Eglwys y Santes Fair ym Mhen-marc gofnod o'i holl offeiriaid ers 1242. Mae'n eglwys fawr - yn rhy fawr i boblogaeth ei dalgylch heddiw - am ei bod unwaith yn sefyll y tu fewn i gysylltfuriau'r castell cyfagos. Mae'r Castell presennol a ddatblygodd o adeilad pren cynharach, yn perthyn i'r drydedd ganrif ar ddeg. Cafodd ei adeiladu gan y teulu Normanaidd De Umfraville ac mae cenedlaethau o'r teulu hwnnw wedi byw ynddo. Mae gweddillion hen dŵr yn rhan orllewinol y castell. Ar ôl dod o hyd i belenni magnel yn y cyffiniau, ffurfiwyd y ddamcaniaeth bod Cromwell wedi tanio ar y castell yn ystod y Rhyfel Cartref.